| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

631/51

**TGAU**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU GYMHWYSOL**

**(DWYRADD)**

A.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(2 Awr)

| **I'r Arholwr yn unig** | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Marciau** | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur hwn bydd arnoch angen Deunydd Adnoddau i'w ddefnyddio gyda Chwestiynau 7 i 8.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le i'ch ateb, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

*Mae'r cwestiynau yn y papur hwn wedi eu seilio ar gyd-destun 'Theatr y Dref'.*

**1.** Mae staff *Theatr y Dref* yn defnyddio rhaglen cyhoeddi bwrdd gwaith *(DTP)* i greu pamffledi.

*(a)* Ticiwch **un** blwch ym **mhob** achos i ddangos pa nodwedd a fyddai'n **cwblhau** y tasgau canlynol **orau**: [5]

(i) Gwneud teitlau'r dramâu yn fwy tywyll fel eu bod yn fwy amlwg.

- ☐ Tanlinellu
- ☐ Italig
- ☐ Testun trwm
- ☐ Priflythrennau

(ii) Ychwanegu graffigyn.

- ☐ Tablu
- ☐ Uwchysgrif
- ☐ Cliplun
- ☐ Isysgrif

(iii) Dewis arddull ysgrifennu ffansi.

- ☐ Newid argraffydd
- ☐ Newid bysellfwrdd
- ☐ Newid rhaglen
- ☐ Newid ffont

(iv) Edrych am air arall sydd â'r un ystyr.

- ☐ Gwirydd sillafu
- ☐ Awtogywiro
- ☐ Geiriadur
- ☐ Thesawrws

(v) Chwilio am air penodol mewn dogfen.

- ☐ Chwyddo
- ☐ Canfod
- ☐ Gweld
- ☐ Cyfrif geiriau

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Mae'r rhestr isod o'r cast wedi ei chynhyrchu i fynd i mewn i un o raglenni *Theatr y Dref*.

| | | |
|---|---|---|
| *Y Fonesig Bryce* | .................... | *Laura Kane* |
| *Yr Arglwydd Bryce* | .................... | *Bob James* |
| *Lucy Brown* | .................... | *Sarah Jones* |
| *Bob Parker* | .................... | *Jim Fields* |
| *Y cnaf (villain)* | .................... | *Mike Lewis* |

Ticiwch **dri** blwch i ddangos pa rai o'r nodweddion canlynol **nad** ydynt wedi cael eu defnyddio i gynhyrchu rhestr y cast. [3]

☐ Tab degol

☐ Tab arweiniol *(leader tab)*

☐ Tanlinellu

☐ Italig

☐ Llinell drwodd

☐ Aliniad i'r chwith

*(c)* Pa *fath* o gymhwysiad meddalwedd fyddai'r **gorau** i gynhyrchu'r rhestr uchod o'r cast? [1]

..............................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Mae *Theatr y Dref* hefyd yn defnyddio'r system gyfrifiadur at bwrpasau eraill. Gan ddefnyddio'r geiriau sydd wedi eu rhestru isod, cwblhewch y tabl i ddangos pa gymwysiadau yw'r **mwyaf** addas i wneud y tasgau canlynol. [6]

**Taenlen** ***CAD*** **(Dylunio drwy gymorth Cyfrifiadur)** **Meddalwedd trafod graffigwaith**

**Meddalwedd amlgyfrwng/cyflwyno** **Porwr Rhyngrwyd** **Cronfa ddata**

| **Tasg** | **Math o gymhwysiad** |
|---|---|
| Dylunio cynllun llwyfan. | |
| Cadw manylion cwmnïau theatr. | |
| Golygu ffotograff. | |
| Canfod adolygiadau o ddramâu ar y we. | |
| Cynhyrchu sioe sleidiau. | |
| Cyfrifo incwm a gwariant. | |

*(d)* Mae gweithwyr *Theatr y Dref* yn gwireddu mewnbwn data. Rhowch **ddau** *ddull* posibl o wireddu y gallent eu defnyddio. [2]

Dull 1 ..............................................................................................................................

Dull 2 ..............................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2**. Mae'r swyddog ymchwil yn *Theatr y Dref* yn aml yn defnyddio'r Rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth.

*(a)* Ticiwch **un** blwch i nodi'r meini prawf **gorau** i'w defnyddio wrth chwilio am wybodaeth am y sioe gerdd *'Cats'*. [1]

☐ *Cats*

☐ Sioe gerdd

☐ Sioe gerdd *Cats*

☐ Gwybodaeth am *Cats*

*(b)* Mae'r swyddog ymchwil yn canfod y wefan berthnasol ac mae hi am fynd yn ôl iddi'n aml. Nodwch pa nodwedd ar feddalwedd y porwr a allai ei helpu hi i wneud hyn yn hawdd. [1]

..............................................................................................

*(c)* (i) Mae gweithwyr *Theatr y Dref* yn defnyddio sawl cyfleuster e-bost. Rhowch enghraifft o sut gallent ddefnyddio'r canlynol:

Rhestr bostio: ..............................................................................................

.............................................................................................. [1]

Atodiadau: ..............................................................................................

.............................................................................................. [1]

(ii) *Ar wahân i restr bostio ac atodiadau*, rhowch **ddwy** fantais defnyddio e-bost ar gyfer ymholiadau yn hytrach na defnyddio'r post arferol. [2]

Mantais 1 ..............................................................................................

..............................................................................................

Mantais 2 ..............................................................................................

..............................................................................................

(iii) Rhowch **un** fantais defnyddio e-bost ar gyfer ymholiadau yn hytrach na defnyddio'r ffôn. [1]

..............................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Mae *Theatr y Dref* yn defnyddio taenlen debyg i'r un sydd i'w gweld isod i gyfrifo faint o docynnau y mae angen iddynt eu gwerthu i wneud elw.

| | A | B | C | D | E | F | G | H |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | *Nifer y seddau* | *Cost tocyn £* | *Incwm o Docynnau £* | *Amcangyfrif Incwm o Raglenni £* | *Amcangyfrif Incwm o Ddiodydd £* | *Amcangyfrif Cyfanswm Incwm £* | *Costau Cynhyrchu a'r Theatr £* | *Elw neu Golled £* |
| **2** | 10 | 5 | 50 | 20 | 15 | 85 | 850 | -765 |
| **3** | 20 | 5 | 100 | 40 | 30 | 170 | 850 | -680 |
| **4** | 30 | 5 | 150 | 60 | 45 | 255 | 850 | -595 |
| **5** | 40 | 5 | 200 | 80 | 60 | 340 | 850 | -510 |
| **6** | 50 | 5 | 250 | 100 | 75 | 425 | 850 | -425 |
| **7** | 60 | 5 | 300 | 120 | 90 | 510 | 850 | -340 |
| **8** | 70 | 5 | 350 | 140 | 105 | 595 | 850 | -255 |
| **9** | 80 | 5 | 400 | 160 | 120 | 680 | 850 | -170 |
| **10** | 90 | 5 | 450 | 180 | 135 | 765 | 850 | -85 |
| **11** | 100 | 5 | 500 | 200 | 150 | 850 | 850 | 0 |
| **12** | 110 | 5 | 550 | 220 | 165 | 935 | 850 | 85 |

Edrychwch yn ofalus ar y daenlen uchod ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

*(a)* Enwch y *math* o ddata sy'n cael ei ddefnyddio yn amrediad celloedd A1:H1.

.............................................................................. [1]

*(b)* Enwch y *math* o ddata sy'n cael ei ddefnyddio yn amrediad celloedd A2:H12.

.............................................................................. [1]

*(c)* Ar wahân i fath data, rhowch **ddwy** nodwedd fformatio *arall* sy'n cael eu defnyddio yn amrediad celloedd A1:H1. [2]

Nodwedd fformatio 1 ..............................................................................

Nodwedd fformatio 2 ..............................................................................

*(ch)* Rhowch y **cyfeirnod cell** ar gyfer y gell sy'n cynnwys *Amcangyfrif Cyfanswm Incwm* pan gaiff 50 o seddau eu bwcio. [1]

..............................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(d)* Dewiswch pa **ddwy** o'r fformiwlâu canlynol a allai fod wedi cael eu defnyddio i gyfrifo *Amcangyfrif Cyfanswm Incwm* pan fydd 30 o seddau wedi cael eu bwcio. [2]

☐ =swm(C4+E4)

☐ =C4+D4+E4

☐ =swm(C4:E4)

☐ =C3+C4+C5

*(dd)* Rhowch fformiwla addas ar gyfer cyfrifo *Incwm o Docynnau* pan fydd 70 o seddau wedi cael eu bwcio. [1]

..........................................................................................

*(e)* Rhowch fformiwla addas ar gyfer cyfrifo'r *Elw neu Golled* pan fydd 110 o seddau wedi cael eu bwcio. [1]

..........................................................................................

*(f)* Os caiff cost tocyn ei chynyddu i £6, enwch y **tair** *colofn* arall a fydd yn newid yn awtomatig. [3]

Colofn 1 .................................... Colofn 2 .................................... Colofn 3 ....................................

*(ff)* Ar wahân i *ailgyfrifo awtomatig*, rhowch **ddwy** fantais defnyddio taenlen i ymchwilio i elw neu golled. [2]

Mantais 1 ..........................................................................................

..........................................................................................

Mantais 2 ..........................................................................................

..........................................................................................

*(g)* Yn ogystal ag ymchwilio i *elw a cholled*, rhowch enghraifft **arall** o sut gallai taenlen **wahanol** gael ei defnyddio gan *Theatr y Dref*. [1]

..........................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Mae *Theatr y Dref* yn cadw rhestr o gwmnïau theatr mewn cronfa ddata gyfrifiadurol. Caiff rhan o'r gronfa ddata hon ei dangos isod.

| Enw Cwmni | Lleoliad | Rhif ffôn | Cyswllt | Cyfeirnod | Defnyddiwyd ddiwethaf | Ffi bwcio | Taith Gaeaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Act Up* | Rhydychen | 01865521493 | Jane Rees | 45812 | 01/05/2004 | £55 | Ie |
| *Foxheath Players* | Caerdydd | 02930753324 | Alex Glenn | 13341 | 03/08/2004 | £95 | Na |
| *Africanvas* | Llundain | 02087395051 | Mike Rubayika | 37791 | 21/05/2005 | £140 | Ie |
| *Play Station* | Y Drenewydd | 01686442660 | Pete Pemble | 25471 | 14/09/2005 | £90 | Ie |
| *Little Theatre* | Caerdydd | 02920632897 | Asif Noorani | 63374 | 19/09/2005 | £135 | Ie |
| *Dragon Drama* | Bangor | 01248412689 | Joe James | 85391 | 22/10/2005 | £85 | Na |
| *Mogul Films* | Bolton | 01207369875 | Liz May | 74358 | 30/01/2006 | £75 | Ie |
| *Two's Company* | Derby | 01332695844 | Pat Davies | 25946 | 15/03/2006 | £100 | Na |
| *Wesley Players* | Crewe | 01270311457 | Dave Birch | 23258 | 04/04/2006 | £125 | Ie |

*(a)* Nodwch sawl *cofnod* sydd i'w gweld yn y gronfa ddata hon. .................................................... [1]

*(b)* Nodwch **un** rheswm pam byddai *Theatr y Dref* yn *ychwanegu* cofnod. [1]

..............................................................................................................................................................

*(c)* Nodwch sawl *maes* sydd i'w gweld yn y gronfa ddata hon. .................................................... [1]

*(ch)* Awgrymwch **ddau** faes *ychwanegol* y gallai *Theatr y Dref* eu defnyddio. [2]

Maes 1: ........................................................................ Maes 2: ........................................................................

*(d)* Enwch y *maes allweddol*. ........................................................................................ [1]

*(dd)* Nodwch **bwrpas** y maes allweddol. ..........................................................................................................

.............................................................................................................................................. [1]

*(e)* Rhowch **bum** math data *gwahanol* a ddefnyddir yn y gronfa ddata hon. [5]

(i) ........................................................................................................................

(ii) ........................................................................................................................

(iii) ........................................................................................................................

(iv) ........................................................................................................................

(v) ........................................................................................................................

*(f)* Nodwch pa faes yn y tabl uchod sydd wedi cael ei drefnu mewn trefn esgynnol *(ascending)*. [1]

..............................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ff)* Mae rheolwr y theatr eisiau cael rhestr o gwmnïau theatr ar gyfer *Taith Gaeaf*. Ysgrifennwch y *maes* a'r *meini prawf* a fyddai'n dod o hyd i'r cofnodion hyn **yn unig**. [1]

..............................................................................................................................................

*(g)* Mae rheolwr y theatr yn ystyried defnyddio *Mogul Films*. Ysgrifennwch y *maes* a'r *meini prawf* a fyddai'n rhoi'r holl fanylion am *Mogul Films* **yn unig**. [1]

..............................................................................................................................................

*(ng)* Mae rheolwr y theatr eisiau cael rhestr o'r holl gwmnïau sy'n cynnig *Taith Gaeaf* gyda *Ffi Bwcio* yn llai na £100. Ysgrifennwch y *meysydd* a'r *meini prawf* a fyddai'n canfod y cofnodion hyn **yn unig**. [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(h)* Rhowch fasg mewnbwn addas ar gyfer y maes *Defnyddiwyd ddiwethaf*. [1]

..............................................................................................................

*(i)* Mae'r tabl gyferbyn yn ffurfio rhan o *gronfa ddata berthynol (relational)*. Esboniwch y term *cronfa ddata berthynol*. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Mae staff *Theatr y Dref* yn defnyddio ffyrdd safonol o weithio wrth ddefnyddio cyfrifiaduron. Rhowch **dair** problem iechyd bosibl *wahanol* sy'n ymwneud â defnyddio cyfrifiadur, a rhowch ddull *gwahanol* o atal pob un ohonynt. [6]

Problem iechyd bosibl 1: ..................................................

Dull atal: ..................................................

..................................................

Problem iechyd bosibl 2: ..................................................

Dull atal: ..................................................

..................................................

Problem iechyd bosibl 3: ..................................................

Dull atal: ..................................................

..................................................

**6.** Mae rheolwr *Theatr y Dref* weithiau'n defnyddio meddalwedd cyflwyno *(presentation)* i'w helpu hi gyda hyfforddiant staff.
Rhowch ddiffiniad o nodweddion canlynol y meddalwedd cyflwyno:

*(a)* Animeiddio ..................................................

.................................................. [1]

*(b)* Newid sleid ..................................................

.................................................. [1]

*(c)* Dolen *(loop)* ..................................................

.................................................. [1]

*(ch)* Taflenni *(handouts)* printiedig ..................................................

.................................................. [1]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Wrth ateb y cwestiynau canlynol, dylech chi gyfeirio at y dogfennau *'Theatr y Dref'* yn eich atodiad o Ddeunydd Adnoddau.**

**7.** Mae **Dogfen 1** yn llythyr postgyfuno *(mail merge)*.

(i) Rhowch ddiffiniad o bostgyfuno. [2]

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(ii) Mae **Dogfen 1** a **Dogfen 2** yn cynnwys logo *Theatr y Dref*. Nodwch **un** pwrpas logo. [1]

..............................................................................................................................

(iii) Nodwch **dair** nodwedd y meddalwedd Cyhoeddi Bwrdd Gwaith *(DTP)* a gafodd eu cyfuno i greu logo *Theatr y Dref*. [3]

Nodwedd 1: ..............................................................................................................

Nodwedd 2: ..............................................................................................................

Nodwedd 3: ..............................................................................................................

(iv) Nodwch y nodwedd a ddefnyddiwyd ar y geiriau *Llwyfan Un* yn **Nogfen 1**. [1]

..............................................................................................................................

(v) Mae **Dogfen 1** yn cynnwys y dyddiad '$21^{ain}$ Ebrill 2006'. Nodwch y nodwedd fformatio sy'n creu'r effaith sydd i'w gweld ar ran *'ain'* y dyddiad. [1]

..............................................................................................................................

(vi) Nodwch y math o *aliniad* a ddefnyddiwyd ar gyfer y dyddiad yn **Nogfen 1**. [1]

..............................................................................................................................

(vii) Nodwch y math o *aliniad* a ddefnyddiwyd ar gyfer *prif gorff* y llythyr yn **Nogfen 1**. [1]

..............................................................................................................................

(viii) Yn **Nogfen 1** mae *paragraff 2* yn wahanol i'r paragraffau eraill. Nodwch y **ddwy** nodwedd a ddefnyddiwyd i newid y dyfyniad ym *mharagraff 2*. [2]

Nodwedd 1: ..............................................................................................................

Nodwedd 2: ..............................................................................................................

(ix) Mae **Dogfen 1** yn cynnwys *troedyn*. Rhowch ddiffiniad o *droedyn*. [1]

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**8.** Mae **Dogfen 2** yn boster sydd i'w ddangos yn y theatr. Crëwyd *'Cyfeillion Theatr y Dref'* gan ddefnyddio *Word Art*.

*(a)* Nodwch y nodwedd a ddefnyddiwyd i newid ongl y *Word Art*. [1]

..............................................................................................................................................

*(b)* Rhowch **chwe** nodwedd *arall* y meddalwedd Cyhoeddi Bwrdd Gwaith *(DTP)* a ddefnyddiwyd yn **Nogfen 2** ond nid yn **Nogfen 1**. [6]

Nodwedd 1: ..............................................................................................................

Nodwedd 2: ..............................................................................................................

Nodwedd 3: ..............................................................................................................

Nodwedd 4: ..............................................................................................................

Nodwedd 5: ..............................................................................................................

Nodwedd 6: ..............................................................................................................

*(c)* Ar wahân i lythyr, poster, rhaglen theatr neu e-bost, enwch **bum** dogfen arall y gallai *Theatr y Dref* eu defnyddio, a nodwch bwrpas pob un ohonynt.

Dogfen 1: .............................................................................................................. [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................

.............................................................................................................................. [1]

Dogfen 2: .............................................................................................................. [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................

.............................................................................................................................. [1]

Dogfen 3: .............................................................................................................. [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................

.............................................................................................................................. [1]

Dogfen 4: .............................................................................................................. [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................

.............................................................................................................................. [1]

Dogfen 5: .............................................................................................................. [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................

.............................................................................................................................. [1]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

631/51-A

**TGAU**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU GYMHWYSOL**

**(DWYRADD)**

A.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

**Deunydd Adnoddau i'w ddefnyddio gyda Chwestiynau 7 ac 8.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys dwy ddogfen i'w defnyddio gyda chwestiynau 7 ac 8.

Mae DOGFEN 1 a DOGFEN 2 yn labeli ar gyfer adnabod yn unig.

**Nid** yw'r geiriau hyn, na'r blychau o'u cwmpas nhw, yn rhan o'r ddogfen.

**Ni** ddylech chi gyfeirio atynt yn eich atebion.

DOGFEN 1

**Lakeside,**
**Wrecsam.**
**LL12 8PG**

☎ **01978 777988**
🖹 **01978 777989**
🖰 **Theatrydref@interserv.co.uk**

$21^{ain}$ Ebrill 2006

Annwyl <<Teitl>> <<Cyfenw>>,

Yn amgaeedig mae ein Rhaglen o Ddigwyddiadau Gwanwyn a ffurflen adnewyddu tanysgrifiad ar gyfer Cyfeillion Theatr y Dref. Fel y gwelwch chi, un o uchafbwyntiau'r tymor yw'r cynhyrchiad o 'Dawns, Drymiau a Breuddwydion' gan y cwmni theatr byd-enwog o Affrica *'Africanvas'*. Cafodd y sioe gerdd newydd gyffrous hon adolygiadau eithriadol gan wasg y byd, gan gynnwys y dyfyniad hwn o gylchgrawn *Stage One*:

> 'Mae *Africanvas* yn perfformio gwledd gyffrous arall eto o gân a dawns, gyda rhediad stori gafaelgar. Mae curiad nerthol y gerddoriaeth a'r dawnsio egnïol yn gwneud hyn yn brofiad meddwol, gan beri i'ch traed guro ymhell ar ôl i'r llen ddisgyn.'

Dylech chi archebu eich tocynnau'n gynnar i osgoi siom. Mae bellach yn amser adnewyddu aelodaeth o Gyfeillion Theatr y Dref - cofiwch gwblhau'r ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd gyda'ch siec er mwyn cael prisiau tocynnau arbennig i aelodau, archebu ymlaen llaw a chyfleoedd i gwrdd â'r cast ar ôl cynyrchiadau penodol.

Diolch i chi am ddal i'n cefnogi. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Janet Thomas,
Rheolwr y Theatr.

Amg.

Mae Cyfeillion Theatr y Dref yn elusen gofrestredig, 1175336.

DOGFEN 2

# Cyfeillion Theatr y Dref

**Dewch yn gyfaill Theatr y Dref ac fe gewch:**

1. **Tocynnau pris gostyngol**
2. **Archebu ymlaen llaw**
3. **Gwahoddiadau i ddigwyddiadau arbennig i 'Gyfeillion'**
4. **Cylchlythyr rheolaidd**

Cyfraddau Aelodaeth Flynyddol:

- Sengl £15
- Cyd-aelodaeth £25
- Iau £10

*FFURFLENNI AELODAETH AR GAEL O'R SWYDDFA DOCYNNAU*